OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 34 (Meisgyn), Rhondda Cynon Taf i Gyffordd 36 (Sarn), Pen-y-bont ar Ogwr) (Terfynau Cyflymder 40 mya a 50 mya Dros Dro) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Chwefror 2021* |
| *Yn dod i rym* | *1 Mawrth 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o draffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 34 (Meisgyn), Rhondda Cynon Taf i Gyffordd 36 (Sarn), Pen-y-bont ar Ogwr) (Terfynau Cyflymder 40 mya a 50 mya Dros Dro) 2021 a daw i rym ar 1 Mawrth 2021.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2021 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The M4 Motorway (Junction 34 (Miskin), Rhondda Cynon Taf to Junction 36 (Sarn), Bridgend) (Temporary 40 mph & 50 mph Speed Limits) Order 2021

| | |
|---|---|
| *Made* | *25 February 2021* |
| *Coming into force* | *1 March 2021* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the M4 motorway, are satisfied that traffic on specified lengths of the motorway should be restricted because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

**Title, Commencement and Interpretation**

**1.** The title of this Order is the M4 Motorway (Junction 34 (Miskin), Rhondda Cynon Taf to Junction 36 (Sarn), Bridgend) (Temporary 40 mph & 50 mph Speed Limits) Order 2021 and it comes into force on 1 March 2021.

**2.** In this Order—

"exempted vehicle" *("cerbyd esempt")* means:

(**1**) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**); a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "y draffordd" ("*the motorway*") yw traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**5.**—(1) Nid yw'r cyfyngiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(**2**); and

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

"special forces" *("lluoedd arbennig")* means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

"the motorway" *("y draffordd")* means the M4 London to South Wales motorway.

**Restrictions**

**3.** No person may drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the motorway specified in the Schedule to this Order.

**4.** No person may drive any motor vehicle at a speed exceeding 50 miles per hour on the lengths of the motorway specified in the Schedule to this Order.

**Application**

**5.**—(1) The restrictions in article 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

(**2**) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

**Atal Dros Dro**

**6.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau modur ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 o'r Gorchymyn hwn yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 25 Chwefror 2021



*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

Y darn o gerbytffordd y draffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 34 (Meisgyn) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 36 (Sarn).

Y darn o gerbytffordd y draffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth gyffordd 36 (Sarn) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 34 (Meisgyn).

**Suspensions**

**6.** Any statutory provisions restricting the speed of motor vehicles on the lengths of the motorway specified in the Schedule to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 3 and 4 of this Order apply.

**Duration of this Order**

**7.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 25 February 2021



*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

**SCHEDULE**

The length of the westbound carriageway of the motorway that extends from the nosing of the westbound exit slip road at Junction 34 (Miskin) to the nosing of the westbound entry slip road at Junction 36 (Sarn).

The length of the eastbound carriageway of the motorway that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Junction 36 (Sarn) to the nosing of the eastbound entry slip road at Junction 34 (Miskin).

**GORCHYMYN TRAFFORDD YR M4 (CYFFORDD 34 (MEISGYN), RHONDDA CYNON TAF I GYFFORDD 36 (SARN), PEN-Y-BONT AR OGWR) (TERFYNAU CYFLYMDER 40 MYA A 50 MYA DROS DRO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar draffordd yr M4, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 34 (Meisgyn), Rhondda Cynon Taf a Chyffordd 36 (Sarn), Pen-y-bont ar Ogwr.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder dros dro o 40 mya a/neu 50 mya ar:

i. y darn o gerbytffordd yr M4 tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 34 (Meisgyn) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 36 (Sarn); a

ii. y darn o gerbytffordd yr M4 tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 36 (Sarn) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 34 (Meisgyn).

Daw'r Gorchymyn i rym ar 1 Mawrth 2021 a bydd yn parhau mewn grym am 18 mis ar y mwyaf. Disgwylir y bydd y terfynau cyflymder dros dro ond yn weithredol dros nos (20:00 – 06:00 o'r gloch) drwy gydol cyfnod para'r gwaith.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**



**P HUISH**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE M4 MOTORWAY (JUNCTION 34 (MISKIN), RHONDDA CYNON TAF TO JUNCTION 36 (SARN), BRIDGEND) (TEMPORARY 40 MPH & 50 MPH SPEED LIMITS) ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the M4 motorway between Junction 34 (Miskin), Rhondda Cynon Taf and Junction 36 (Sarn), Bridgend.

The effect of the Order is to impose a temporary 40 mph and/or 50 mph speed limit on:

i. the length of the M4 westbound carriageway that extends from the nosing of the westbound exit slip road at Junction 34 (Miskin) to the nosing of the westbound entry slip road at Junction 36 (Sarn); and

ii. the length of the M4 eastbound carriageway that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Junction 36 (Sarn) to the nosing of the eastbound entry slip road at Junction 34 (Miskin).

The Order comes into force on 1 March 2021 and will remain in force for a maximum duration of 18 months. The temporary speed limits are only expected to operate overnight (20:00 – 06:00 hours) for the duration of the works.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**



**P HUISH**
Transport
Welsh Government